- finding it difficult to concentrate or sleep
- sweating
- a racing heart
- being unable to get rid of your worries
- feeling breathless
- loss of appetite

These may include:

Symptoms of anxiety

Anxiety can be caused by several things, including uncertainty about the future, money worries or your medication.

Most of us feel anxious from time to time, but some people may often feel anxious and have difficulty managing these feelings. This can really affect quality of life and, for people with a terminal illness, anxiety can make other symptoms worse. If you're depressed it may be linked with anxiety.

About anxiety

Contact us on **0800 090 2309*** to order our *Controlling pain* leaflet or visit **mariecurie.org.uk/help** for more information.



Depression can get worse if you don't or can't acknowledge your feelings or talk about them. Try to tell your nurse or doctor. They can assess you and decide how to help.

Tackling other symptoms like pain may help reduce symptoms of depression. Getting enough support and adjusting your other treatments might also help, but always speak to your doctor before you make any changes to your medication.

Managing depression

Cadw iselder dan reolaeth

Gall iselder waethygu os nad ydych neu na allwch gydnabod eich teimladau na siarad amdanynt. Ceisiwch ddweud wrth eich nyrs neu feddyg. Gallant eich asesu a phenderfynu sut i helpu.

Mae mynd i'r afael â symptomau eraill fel poen yn gallu helpu i leihau symptomau iselder. Mae'n bosibl y bydd cael digon o gefnogaeth a gwneud newidiadau i'ch triniaethau eraill yn helpu hefyd, ond dylech siarad â'ch meddyg bob amser cyn gwneud unrhyw newidiadau i'ch meddyginiaeth.



Cysylltwch â ni ar **0800 090 2309*** i archebu ein taflen *Rheoli poen* neu ewch i **mariecurie.org.uk/help** am fwy o wybodaeth.

Am orbryder

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn teimlo'n bryderus o bryd i'w gilydd, ond gall rhai pobl deimlo'n orbryderus yn aml a'i chael yn anodd cadw'r teimladau hyn dan reolaeth. Gall hyn gael effaith wirioneddol ar ansawdd bywyd ac, i bobl ag afiechyd terfynol, gall gorbryder wneud symptomau eraill yn waeth. Os ydych yn dioddef iselder, gall fod yn gysylltiedig â gorbryder.

Gall gorbryder gael ei achosi gan nifer o bethau, gan gynnwys ansicrwydd am y dyfodol, pryderon am arian neu eich meddyginiaeth.

Symptomau gorbryder

Gall y rhain gynnwys:

- teimlo ar bigau'r drain neu'n ofnus
- teimlo'n anesmwyth neu'n gynhyrfus
- ei chael yn anodd canolbwyntio neu gysgu
- chwysu
- calon sy'n carlamu
- methu â chael gwared ar eich pryderon
- diffyg anadl
- colli'r awch am fwyd

Cadw gorbryder dan reolaeth

Os ydych yn ei chael yn anodd cadw'ch gorbryder neu eich pryderon dan reolaeth, mae'n syniad da rhoi gwybod i'ch nyrs neu feddyg er mwyn iddynt allu dysgu mwy am eich symptomau a sut gallant eich helpu.

Triniaeth am iselder a gorbryder

Os na chaiff eich iselder neu orbryder eu trin, gall symptomau waethygu a dod yn fwy anodd eu trin. Mae'n bwysig cael help cyn gynted ag y gallwch. Gall triniaeth wella ansawdd eich bywyd yn sylweddol.

Gallai gynnwys:

- ymarfer corff
- technegau hunangymorth
- grwpiau cefnogi
- meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau gwrthiselder
- therapi cyflenwol, fel aciwbigo
- therapi siarad, er enghraifft, therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) neu gynghori
- therapiau nad ydynt yn gyffuriau, fel technegau ymlacio a chyngor ar sut i reoli cwsig a gorbryder

Cael help

Gallwch chi, eich teulu a'ch ffrindiau agos ofyn i'ch meddyg, nyrs ardal neu Nyrs Marie Curie am y mathau gwahanol o gynghori sydd ar gael a sut i'w gyrchu. Yn aml, mae cynghori'n rhad ac am ddim mewn hosbisau, ysbytai neu feddygfeydd Meddygon Teulu.

Mae gwasanaethau cynghori am ddim fel rheol yn canolbwyntio ar therapi ymddygiad gwybyddol (CBT), therapi siarad a allai eich helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion rydych yn poeni amdanynt. Byddwch efallai'n cael eich cyfeirio at weithiwr proffesiynol iechyd meddwl, fel seicolegydd neu seiciatrydd, am help arbenigol. Neu, gofynnwch i'ch meddyg am gynghori preifat, neu ewch i wefan It's good to talk (gweler tudalen 70) i ddysgu mwy.

Managing anxiety

If you're finding it difficult to control your anxiety or worries, it's good to let your nurse or doctor know so they can find out more about your symptoms and how they can help you.

Treatment for depression and anxiety

If your depression or anxiety is left untreated symptoms can become worse and more difficult to treat. It's important to get help as early as possible. Treatment can really improve your quality of life.

It could include:

- exercise
- self-help techniques
- support groups
- medication, including anti-depressants
- complementary therapy, like acupuncture
- talking therapy, for example, cognitive behavioural therapy (CBT) or counselling
- non-drug therapies, like relaxation techniques and advice on how to manage sleep and anxiety

Getting help

You, and your family and close friends, can ask your doctor, district nurse or Marie Curie Nurse about the different types of counselling, available and how to access it. Counselling is often free at hospices, hospitals or GP surgeries.

Free counselling services usually focus on cognitive behavioural therapy (CBT), a talking therapy that could help you to deal with any issues you're worried about. You may be referred to a mental health professional, like a psychologist or psychiatrist, for specialist help. Alternatively, ask your doctor about private counselling, or visit the It's good to talk website (see page 70) to find out more.

Complementary therapies aren't designed to take the place of traditional care, but some of their benefits are now widely recognised.

I've had massages at the hospice too. I've [also] got arthritis which makes it difficult to put my arms into my shirt sleeves and get dressed. But the massage has really helped. Willie, who is living with terminal illness

- Complementary therapies include:
- acupressure
 - acupuncture
 - aromatherapy
 - art therapy
 - hypnotherapy
 - massage
 - reflexology
 - reiki
 - relaxation
 - shiatsu massage
 - meditation
 - yoga, tai chi and other exercise
 - drama therapy
 - music therapy

Complementary therapies are given alongside conventional medical treatment. These may help you to feel more relaxed or to sleep better. They can also be used to relieve pain and tension in the body.

Complementary therapies

There are some things you can do to help yourself. You could try things that you enjoy like listening to music, reading a book or starting a new hobby. You might also like to exercise (see page 36) or relax with complementary therapies like massage.

Helping yourself

Helpu eich hun

Mae rhai pethau y gallwch eu gwneud i helpu eich hun. Gallech roi cynnig ar bethau rydych yn eu mwynhau fel gwranddo ar gerddoriaeth, darllen llyfr neu ddechrau hobi newydd. Efallai byddech yn dymuno gwneud ymarfer corff hefyd (gweler tudalen 36) neu ymlacio gyda therapiau cyflenwol fel tyliino.

Therapiau cyflenwol

Rhoddir therapiau cyflenwol ochr yn ochr â thriniaeth feddygol gonfensiynol. Gall y rhain eich helpu i ymlacio mwy neu i gysgu'n well. Gallant gael eu defnyddio'n ogystal i leddfu poen a thensiwn yn y corff.

Mae therapiau cyflenwol yn cynnwys:

- aciwbwyso
- aciwbigo
- aromatherapi
- therapi celf
- hypnotherapi
- tyliino
- adweitheg
- reiki
- ymlacio
- tyliino shiatsu
- myfyrdod
- ioga, t'ai chi ac ymarfer arall
- therapi drama
- therapi cerddoriaeth

Nid bwriad therapiau cyflenwol yw cymryd lle gofal traddodiadol, ond erbyn hyn cydnabyddir rhai o'u buddion yn eang.

Cefais fy nhyliino yn yr hosbis hefyd. Mae gen i arthritis [hefyd] sy'n ei gwneud yn anodd i mi roi fy mreichiau yn llewys fy nghrys a gwisgo. Ond mae'r tyliino wedi helpu'n fawr.

Willie, sy'n byw gydag afiechyd terfynol

Dod o hyd i therapi cyflenwol a thalu amdano

Mae'r GIG yn darparu rhai therapiau cyflenwol yn rhad ac am ddim, felly siaradwch â'ch meddyg neu nyrs am beth sydd ar gael yn eich ardal. Gall eich hosbis leol neu grŵp cefnogi lleol gynnig therapiau am ddim neu am gost ostyngedig hefyd. Mae gan Marie Curie naw hosbis ledled y DU neu gallwch chwilio am hosbis leol ar wefan Hospices UK yn hospiceuk.org



Layton Thompson/Marie Curie

Os hoffech chi ddod o hyd i therapydd preifat, mae gan y Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol gyfeiriadur ar ei wefan o therapyddion cymwys wedi'u rhestru fesul ardal (gweler tudalen 65). Gall therapiau preifat fod yn ddrud, felly mae'n werth gwirio'r gost yn gyntaf.

If you'd like to find a private therapist, the Complementary and Natural Healthcare Council has a directory of qualified therapists listed by area on its website (see page 65). Private therapists can be expensive, so it's worth checking the cost first.



Layton Thompson/Marie Curie

Finding and paying for complementary therapy
Some complementary therapies are provided free of charge by the NHS, so speak to your doctor or nurse about what's available in your area. Your local hospice or a local support group may also offer free or reduced cost therapies. Marie Curie has nine hospices throughout the UK or you can search for a local hospice on the Hospices UK website at hospiceuk.org

Alternative therapies are different from complementary therapies. They are given instead of conventional treatment, not alongside it. Be very cautious of alternative therapists who claim that they can cure cancer and other illnesses. Genuine therapists are unlikely to make inappropriate claims about the benefits of their therapies.

Sexuality

When physical and emotional changes happen because of your illness, your sense of sexuality may also change. Many people feel a sense of contentment and wellbeing when they continue or restart a loving and close relationship.

When you're ill there are many factors that can prevent you from continuing your relationship as usual or change how you feel about your sexuality. You may feel differently about having a physical relationship with your partner.

If you're single or not in a long-term relationship, your illness or treatments might put you off starting a new relationship.

Therapiau amgen

Mae therapiau amgen yn wahanol i therapiau cyflenwol. Rhoddir nhw yn lle triniaeth gonfensiynol, nid ochr yn ochr â hi. Byddwch yn ofalus iawn o therapyddion amgen sy'n haeru y gallant wella canser ac afiechydon eraill. Mae therapyddion dilys yn annhebygol o wneud honiadau amhriodol am fuddion eu therapiau.

Rhywioldeb

Pan fydd newidiadau corfforol ac emosïynol yn digwydd o ganlyniad i'ch afiechyd, gall eich ymdeimlad o rywioldeb newid hefyd. Mae llawer o bobl yn teimlo bodlonrwydd a lles pan fyddant yn parhau gyda neu'n ailgychwyn cydberthynas gariadus a chlos.

Pan fyddwch yn sâl mae llawer o ffactorau sy'n gallu eich atal rhag parhau â'ch cydberthynas arferol neu sy'n newid sut rydych yn teimlo am eich rhywioldeb. Gallwch deimlo'n wahanol ynghylch cynnal cydberthynas gorfforol â'ch partner.

Os ydych yn sengl neu heb fod mewn cydberthynas hirdymor, gallai eich afiechyd neu driniaethau eich gwneud yn gyndyn i ddechrau cydberthynas newydd.

Iechyd a thriniaethau

Gall eich afiechyd, triniaeth feddygol amdano a'ch amgylchedd effeithio ar eich mynegiant o'ch rhywioldeb, neu gallant ei gwneud yn anodd i chi barhau i gael cydberthynas gorfforol â phartner. Gallai rhai ffactorau gynnwys:

- blinder a chyfog
- eich delwedd o'ch corff a'ch hyder yn eich corff
- perfformiad rhywiol
- triniaethau a sgil-ffeithiau
- eich rheolaeth dros weithrediadau eich corff
- derbyn gofal mewn ysbyty, hosbis neu gartref gofal lle mae llai o breifatrwydd o bosib

Cael gwybodaeth

Mae peidio â siarad am rywioldeb yn gallu arwain at drallod, teimladau o arunigedd ac ymdeimlad nad yw eich anghenion yn ddilys. Mae pryderon am agosatrwydd yn berthnasol ar bob oedran, ar gyfer unrhyw gyfeiriadedd rhywiol ac ar unrhyw adeg o'ch bywyd.

Codwch y pwnc gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd os hoffech siarad amdano a chael cyngor. Hwyrach y gall nyrsys annog trafodaeth a rhannu gwybodaeth rhyngoch chi a'ch partner. Neu gallech ofyn i gael eich cyfeirio at rywun arall os nad oes gan y gweithiwr proffesiynol rydych yn siarad â nhw yr wybodaeth gywir.

Siarad â'ch partner am ryw

I rai pobl, mae'n anarferol neu'n anodd siarad am gydberthnasau rhywiol. Gall eraill osgoi crybwyll y pwnc os ydynt yn credu y gall achosi dadl. Ond os ydych yn teimlo na allwch gael rhyw naill ai'n gorfforol neu'n seicolegol, mae'n well siarad â'ch partner er mwyn iddynt allu deall sut rydych yn teimlo. Ceisiwch beidio â chuddio eich teimladau a phoeni amdano ar eich pen eich hun.

For some people, it's unusual or difficult to talk about sexual relationships. Others may try to avoid bringing up the subject if they think it may cause an argument. But if you feel unable to have sex either physically or psychologically, it's better to talk to your partner so that they can understand how you're feeling. Try not to hide your feelings and worry about it alone.

Talking to your partner about sex

Bring up the topic with healthcare professionals if you would like to talk about it and be given advice. Nurses may be able to encourage discussion and information sharing between you and your partner. Or you could ask to be referred to someone else if the professional you speak to doesn't have the right knowledge.

Not talking about sexuality can lead to distress, feelings of isolation and a sense that your needs aren't valid. Intimacy concerns are relevant at every age, for any sexual orientation and at any stage in life.

Getting information

include:
 • tiredness and nausea
 • body image and body confidence
 • sexual performance
 • treatments and side effects
 • control of bodily functions
 • being cared for in a hospital, hospice or care home
 where there may be less privacy

Your illness, medical treatments for it and surroundings can affect your expression of your sexuality, or may make it difficult for you to continue a physical relationship with a partner. Some factors could

Health and treatments

Newidiadau corfforol

Wrth i'ch afiechyd fynd yn ei flaen o'r camau cynnar i driniaeth ac ar ôl triniaeth, mae eich lefel o ryngweithio rhywiol yn debygol o leihau ac yna gall ddychwelyd i'w lefel normal.

Yng ngham lliniarol neu derfynol afiechyd, gall newidiadau corfforol gael effaith. Gall newidiadau seicolegol hefyd. Gallwch roi'r gorau i gael rhyw'n gyfan gwbl neu gallwch ganfod eich bod yn dod yn fwy awyddus yn rhywiol. Mae'n dibynnu arnoch chi ac mae'n wahanol i bawb.

Wrth ddynesu at ddiwedd oes, mae'n bosib teimlo ystod o anghenion gwahanol, gan gynnwys:

- pleser
- galar
- cariad
- ymlacio
- gwrthdynciad
- lleddfu poen
- cadarnhad
- dicter

Gall yr anghenion hyn newid ystyr a phwrpas eich cydberthynas gorfforol a rhywiol â'ch partner.

Gall eich angen am agosrwydd corfforol, i gyffwrdd a chael eich cyffwrdd, ddod yn bwysicach i chi wrth ddynesu at ddiwedd oes.

Physical changes

As your illness progresses from early stages to treatment and post-treatment, your level of sexual interaction is likely to decrease and then may return to normal.

In the palliative or terminal stage of an illness, physical changes may have an effect. Psychological changes may too. You may stop having sex completely or you may find yourself becoming more sexually active. It depends on you and it's different for everyone.

Towards the end of life, a range of different needs may be experienced, including:

- pleasure
- grief
- love
- relaxation
- distraction
- painkilling
- affirmation
- anger

These needs can change the meaning and purpose of your physical and sexual relationship with your partner.

Your need for physical closeness, to touch and be touched, may become more important to you towards the end of life.

Newidiadau emosiynol

Mae pob cydberthynas yn unigryw, ond efallai y bydd rhai o'r profiadau mae pobl eraill wedi'u cael yn gyfarwydd i chi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu'n agosach ac yn gryfach yn eich cydberthynas, er gwaethaf effaith emosiynol a chorfforol afiechyd a thriniaethau.
- Symud ar wahân fel pâr.
- Teimlo'n agosach ac ymhellach ar wahân mewn pyliau.
- Ailgyssylltu'n emosiynol fel pâr.
- Adweithio'n wahanol i'ch gilydd i newidiadau yn eich cydberthynas rywiol.
- Mwynhau lefel newydd o agosatrwydd trwy natur ddwys y profiad gofalu.

Cyngor am gydberthnasau

Nid yw siarad am faterion rhywiol a phersonol iawn yn dod yn hawdd i bawb felly efallai y byddai'n haws siarad â rhywun nad ydych yn eu hadnabod.

Gallech roi cynnig ar siarad â'ch meddyg neu nyrs, neu ofyn iddynt argymhell cynghorydd, grŵp cefnogi neu weithdy. Mae'n bosibl y gall Relate, elusen sy'n cynnig cymorth cydberthnasau, helpu. Gweler tudalen 71 am fanylion cysylltu.

Emotional changes

Every relationship is unique, but you might find some of the experiences other people have had familiar. These include:

- Growing closer and stronger in your relationship, despite the emotional and physical impact of illness and treatments.
- Moving apart as a couple.
- Feeling closer and further apart in waves.
- Re-connecting emotionally as a couple.
- Having different reactions to changes in your sexual relationship.
- Enjoying a new level of intimacy through the intensity of the caring experience.

Relationship advice

Talking about sexual and intimate matters doesn't come easily to everyone so you might find it easier to speak to someone who you don't know.

You could try talking to your doctor or nurse, or ask them to

recommend a counsellor, support group or workshop. Relate,

a charity offering relationship support, may also be able to help.

See page 71 for contact details.

Section 5: Getting support

52	Getting equipment and adapting your home
55	Benefits and financial support
59	If you live alone

Adran 5: Cael cefnogaeth

52	Cael offer ac addasu'ch cartref
55	Budd-daliadau a chymorth ariannol
59	Os ydych yn byw ar eich pen eich hun

Gall fod angen mwy o gefnogaeth emosiynol ac ymarferol arnoch pan fyddwch yn sâl. Gallai hyn gynnwys gwneud newidiadau i'ch cartref i'ch helpu i symud o gwmpas yn well neu gadw mewn cysylltiad â'ch anwyliaid. Mae budd-daliadau ar gael hefyd i helpu gyda chostau ychwanegol.

Cael offer ac addasu'ch cartref

Gall addasu'ch cartref neu gael offer byw arbenigol wneud bywyd yn haws o lawer i bobl sy'n cael anhawster wrth wneud gweithgareddau bob dydd. Fel rheol, gall y rhain gael eu darparu'n weddol gyflym ac mae'n bosibl y gallwch gael help i dalu amdanynt (gweler tudalen 54) neu eu benthyca.

Addasiadau

Mae addasiadau'n amrywio o drefnu i ddyfeisiau gael eu gosod neu eu ffitio, fel intercom, i newid rhannau o'ch cartref i'ch gwneud yn fwy cysurus. Er enghraifft, os ydych yn defnyddio cadair olwyn, gall fod angen i chi gael drysau mwy llydan neu addasu'r bath. Mae'n bosibl na fydd angen i chi drefnu addasiadau bob amser – gallai darnau penodol o offer wneud gwahaniaeth mawr.

Offer

Mae darnau cyffredin o offer yn cynnwys:

- potel ddŵr poeth neu sach wenith
- lifft ar gyfery bath
- clustog ewyn (clustog sy'n lleddfu pwysedd)
- sedd ddyrchafedig i'r tŷ bach
- matras pwysedd eiledol
- bwrdd sy'n mynd ar draws y gwely
- cadair olwyn
- ffyn baglau
- gwely fel un mewn ysbyty

Getting equipment and adapting your home

You may need more emotional and practical support when you're around better or staying in touch with those close to you. There are also benefits available to help with extra costs.

Adapting your home or getting specialist living equipment can make life much easier. These can usually be provided fairly quickly and you may be able to get help with paying for them or get them on loan (see page 54).

Adaptations

Adaptations range from getting devices installed or fitted, such as an intercom, to having parts of your home modified to make you more comfortable. For example, if you're using a wheelchair, you may need to get doors widened or the bath adjusted. You may not always need to get adaptations made – certain pieces of equipment could make all the difference.

Equipment

Common pieces of equipment include:

- hot water bottle or wheat bag
- bath lift
- foam cushion (pressure relieving cushion)
- raised toilet seat
- alternating pressure mattress
- overbed table
- wheelchair
- crutches
- hospital style bed

Many of these can be bought from a household shop rather than through a specialist supplier. Some bigger pieces of equipment can be supplied through your GP or occupational therapist.

Getting help from an occupational therapist

Before you get any equipment or make adaptations to your home, you should be assessed by an occupational therapist to find out what you need. Some adaptations can be made without a referral or assessment from an occupational therapist. In some cases, a district nurse can also carry out an assessment.

Occupational therapists can visit you at home, at work or in hospital. During their visit, it's likely they'll want to see you doing the thing you're having difficulty with, so try to arrange this for a time of day when you have more energy.

The occupational therapist's involvement can form part of a **care and support needs assessment**. This is carried out by your local social services department and includes a discussion about the kinds of care tasks that you're able to carry out unassisted. You may then be eligible for financial assistance. See page 54 for more information.

You can find an occupational therapist through the NHS or your local social services department. In Northern Ireland, contact your local health and social care trust.

You can also access them privately. The British Association of Occupational Therapists has a searchable directory to find independent therapists in your area. See page 71 for contact details.

Mae'n bosib prynu llawer o'r rhain o siop nwyddau tŷ yn hytrach na thrwy gyflenwr arbenigol. Gall rhai darnau o offer mwy o faint gael eu cyflenwi gan eich Meddyg Teulu neu therapydd galwedigaethol.

Cael help gan therapydd galwedigaethol

Cyn i chi gael unrhyw offer neu wneud addasiadau i'ch cartref, dylech gael eich asesu gan therapydd galwedigaethol i ddydsu beth mae ei angen arnoch. Gall rhai addasiadau gael eu gwneud heb gael eich cyfeirio na'ch asesu gan therapydd galwedigaethol. Mewn rhai achosion, gall nyrs ardal wneud asesiad yn ogystal.

Gall therapyddion galwedigaethol ymweld â chi yn eich cartref, yn y gwaith neu yn yr ysbty. Yn ystod eu hymweliad, mae'n debygol y byddant eisiau eich gweld yn gwneud y peth rydych yn ei chael yn anodd, felly ceisiwch drefnu hyn ar adeg o'r dydd pan fydd gennych fwy o egni.

Gall cyfranogaeth y therapydd galwedigaethol fod yn rhan o **asesiad anghenion gofal a chymorth**. Gwneir hyn gan eich adran gwasanaethau cymdeithasol leol ac mae'n cynnwys trafodaeth o'r mathau o orchwylion gofal y gallwch eu gwneud heb gymorth. Wedyn gallwch fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol. Gweler tudalen 54 am fwy o wybodaeth.

Gallwch ddod o hyd i therapydd galwedigaethol drwy'r GIG neu eich adran gwasanaethau cymdeithasol leol. Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag adran gwasanaethau cymdeithasol eich ymddiriedolaeth leol iechyd a gofal cymdeithasol.

Gallwch hefyd fynd atynt yn breifat. Mae gan Gymdeithas Therapyddion Galwedigaethol Prydain gyfeiriadur lle gallwch chwilio am therapyddion annibynnol yn eich ardal. Gweler tudalen 71 am fanylion cysylltu.

Rhoi offer ar brawf cyn i chi ei brynu

Mae'n syniad da rhoi pob offer ar brawf cyn i chi ei brynu. Os ydych yn ystyried prynu eitem ddrud, gofynnwch am gael defnyddio'r offer am gyfnod prawf yn eich cartref eich hun neu gwiriwch a allwch roi'r offer ar brawf yn y siop. Os hoffech ei brynu wedi hynny, hwyrach y byddwch yn dymuno cael asesiad anghenion gofal a chymorth (gweler tudalen 56) i weld a ydych yn gymwys i dderbyn unrhyw help ariannol. Mae rhai cyflenwyr yn cynnig offer ail-law yn ogystal am bris rhatach. Gofynnwch i'r tîm gosod ddangos i chi sut mae unrhyw offer yn gweithio.

Os ydych yn denant

Bydd angen i chi gael caniatâd eich landlord i wneud addasiadau os ydych yn denant, neu gallwch fod yn torri eich cytundeb tenantiaeth, a allai arwain at gael eich troi allan.

Help ariannol

Mae'n bosibl y gallwch gael offer rhad ac am ddim oddi wrth eich adran gwasanaethau cymdeithasol leol neu ar fenthyciad tymor hir oddi wrth y GIG. Gall y gwasanaethau cymdeithasol roi cymorth ariannol yn ogystal am offer ac addasiadau bach o lai na £1,000 (£1,500 yn yr Alban), ond mae beth a gewch yn dibynnu'n aml ar ble rydych yn byw.

Gallech fod yn gymwys i dderbyn help ariannol am eitemau mwy o faint a drutach hefyd, a elwir yn addasiadau mawr. Yr enw ar hyn yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Addasodd y therapydd galwedigaeth yn yr hosbis fy nghartref er mwyn i mi gael mynd adref. Maen nhw wedi gosod canllawiau yn fy nghartref ac wedi benthyca cadair drydan i mi gyda chefn sy'n lledorwedd ac yn mynd i fyny ac i lawr, sy'n fy helpu gyda'm hanabledd. Mae hyn yn golygu y gallaf fod yn gysurus yn fy nghartref fy hun.

Willie, sy'n byw gydag afiechyd terfynol

Trying out equipment before you buy

It's a good idea to try out all equipment before you buy it. If you're considering buying an expensive item, ask to use the equipment for a trial period in your own home or check if you can try the equipment in-store. If you would then like to buy it, you may want to get a care and support needs assessment (see page 56) to see if you're eligible for any financial help. Some suppliers also offer second-hand equipment at a cheaper price. Ask the installation team to show you how any equipment works.

If you're a tenant

You'll need to get your landlord's permission to make adaptations if you're a tenant, otherwise you may be breaking your tenancy agreement, which could lead to eviction.

Financial help

You may be able to get free equipment from your local social services department or on a long-term loan from the NHS. Social services may also give financial support for equipment and minor adaptations under £1,000 (£1,500 in Scotland), but what you get often depends on where you live.

You could also be entitled to financial help for larger and more expensive items, known as major adaptations. This is called a Disabled Facilities Grant.

The occupational therapist at the hospice adapted my house so I could go home. They put handrails in my home and lent me an electric chair with a reclining back that raises up and down, which helps me with my disability. This means I can be comfortable in my own home.

Willie, who is living with terminal illness

Benefits and entitlements

The benefits system can seem like a maze. There are many different types of benefit, paid for all sorts of reasons. It's worth checking if you can claim any benefits, tax credits or other financial help. It's also a good idea to regularly review your entitlements because you may be able to get more benefits if your circumstances change or if the rules change.

We've outlined some of the main benefits on the next few pages, but it's a good idea to speak to a benefits adviser who will be able to help you understand your options. The rules are complex and may differ depending on where you live. You can find a benefits adviser by contacting Citizens Advice, Macmillan Cancer Support or Carers UK (see pages 64-76 for contact details).

Benefits and financial support

When you're ill, you may choose to stop working or become too unwell to work. You may also have to manage extra costs. Help is available from many sources, including the government, your local council, charities and grant giving trusts.

Contact your local social services department, which will arrange an assessment. A social worker, sometimes accompanied by an occupational therapist, will visit your home and assess your requirements. If you qualify for assistance then the social services department will help organise the adaptations to your home.

For more on finding equipment and making adaptations, see pages 71-73, visit mariecurie.org.uk/help or contact the Marie Curie Support Line on **0800 090 2309**.*



Cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol, a fydd yn trefnu asesiad. Bydd gweithiwr cymdeithasol, weithiau yng nghwmni therapydd galwedigaethol, yn ymweld â'ch cartref ac yn asesu eich gofynion. Os ydych yn gymwys i dderbyn cymorth, yna bydd yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i drefnu'r addasiadau i'ch cartref.



Am fwy o wybodaeth am ddod o hyd i offer a gwneud addasiadau, gweler tudalennau 71-73, ewch i mariecurie.org.uk/help neu cysylltwch â Llinell Gymorth Marie Curie ar **0800 090 2309***.

Budd-daliadau a chymorth ariannol

Pan fyddwch yn sâl, efallai y dewiswch roi'r gorau i weithio neu ddod yn rhy sâl i weithio. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ymdopi â chostau ychwanegol hefyd. Mae help ar gael o lawer o ffynonellau, gan gynnwys y llywodraeth, eich cyngor lleol, elusennau ac ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau.

Budd-daliadau a hawliau

Gall y system fudd-daliadau edrych fel drysfa. Mae llawer o fathau gwahanol o fudd-daliadau, sy'n cael eu talu am bob math o resymau. Mae'n werth gwirio a allwch hawlio unrhyw fudd-daliadau, credydau treth neu help ariannol arall. Mae'n syniad da, hefyd, adolygu'ch hawliau'n rheolaidd oherwydd mae'n bosibl y gallwch gael mwy o fudd-daliadau os yw eich amgylchiadau'n newid neu os yw'r rheolau'n newid.

Rydym wedi amlinellu o rai o'r prif fudd-daliadau dros yr ychydig dudalennau nesaf, ond mae'n syniad da siarad â chynghorydd budd-daliadau a all eich helpu i ddeall eich opsiynau. Mae'r rheolau'n gymhleth a gallant fod yn wahanol gan ddibynnu ar ble rydych yn byw. Gallwch ddod o hyd i gynghorydd budd-daliadau trwy gysylltu â Chyngor ar Bopeth, Cymorth Canser Macmillan neu Carers UK (Gweler tudalennau 64-76 am fanylion cysylltu).

Mae gennym fwy o wybodaeth am fudd-daliadau a hawliadau ar ein gwefan hefyd yn mariecurie.org.uk/help neu galwch Linell Gymorth Marie Curie ar **0800 090 2309**.*

Help gan y gwasanaethau cymdeithasol

Os oes angen cymorth ymarferol arnoch, gallwch fod yn gymwys i dderbyn help gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gofal a chymorth cymdeithasol ar gael ar gyfer pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn y mae arnynt angen sylweddol, oherwydd eu hanabledd, am gymorth i wneud tasgau bob dydd fel codi o'r gwely, gwisgo, coginio a bwyta pryd o fwyd, help gyda gweld ffrindiau a theulu, neu help i ofalu am eraill.

Sut mae gwneud cais

Gallwch ddechrau gweld pa help gallwch ei gael drwy ofyn i adran gwasanaethau cymdeithasol eich cyngor lleol am **asesiad anghenion gofal a chymorth** neu **asesiad gofalydd** ar gyfer eich gofalydd. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'ch ymddiriedolaeth leol iechyd a gofal cymdeithasol a gofynnwch am **asesiad angen**. Mae hawl gennych chi a'ch gofalydd i gael asesiad ac mae'n ddyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol gynnal y rhain.

Yn gyffredinol, mae cynghorau'n gallu codi tâl am wasanaethau gofal. Mae rhai awdurdodau lleol yn codi tâl am rai gwasanaethau'n unig, er enghraifft, prydau ar glud neu gymorth cartref. Os ydych yn byw yn yr Alban, yn 65 oed neu'n hŷn, ac yn derbyn gofal personol neu gymorth gofal personol yn eich cartref, dylech dderbyn hyn yn rhad ac am ddim.

Gofal iechyd parhaus y GIG

Mae gofal iechyd parhaus y GIG yn ofal iechyd a chymdeithasol a gewch o bosibl yn rhad ac am ddim o'r GIG os nad ydych yn yrysbyty ond mae gennych anghenion gofal cymhleth parhaus. Weithiau fe'i gelwir yn ofal a ariennir yn llawn.

We also have more information about benefits and entitlements on our website at mariecurie.org.uk/help or call the Marie Curie Support Line on **0800 090 2309**.*

Help from social services

If you need practical support, you may qualify for help from social services. Social care and support is available for people aged 18 or over who, because of their disability, have substantial need for support in doing everyday tasks like getting out of bed, getting dressed, cooking and eating a meal, help with seeing friends and family or help caring for others.

How to apply

You can start finding out what help you can get by asking your local council's social services department for a **care and support needs assessment** or a **carer's assessment** for your carer. If you live in Northern Ireland, contact your local health and social care trust and ask for an **assessment of need**. You and your carer are entitled to have an assessment and social services have a duty to carry these out. Generally, social services can charge for care services. Some local authorities only charge for some services, for example, meals on wheels or home helps. If you live in Scotland, are aged 65 or over, and get personal care or personal support care at home, you should get this free of charge.

NHS continuing healthcare

NHS continuing healthcare is health and social care that you may be able to get free of charge from the NHS if you aren't in hospital but have complex ongoing care needs. It's sometimes called fully-funded care.

When you apply, it's a good idea to get support from someone who understands how the system currently works, as the rules change quite often. Citizens Advice (page 73) is a good place to start.

- your Marie Curie Nurse or hospice staff
- a hospital social worker
- your local council or health and social care trust in Northern Ireland
- your district nurse, doctor or another healthcare professional

You'll need to arrange an initial assessment through:

How to apply

Personal care means anything relating to hygiene, food, emotional wellbeing, mobility or simple treatments like applying lotions or eye drops. Healthcare is any care that needs to be provided by a healthcare professional like a nurse or doctor.

Continuing healthcare covers care home fees including: accommodation costs, healthcare costs and personal care costs. If you need care at home, it covers personal costs and healthcare costs. It might also cover the cost of healthcare assistants.

Continuing healthcare is for anyone in the UK who mainly has a healthcare need. This means that the care needed is more about medical care than social care. These needs can either be at home, in a hospice or in a care home. You can apply for continuing healthcare if you:

- have a complex medical condition
- need substantial and ongoing care

If your needs are urgent, you may be given continuing healthcare on a fast track. This means you don't have to do any of the assessments. Your needs are considered urgent if your life could be in danger if you don't get help quickly.

Os yw eich anghenion yn rhai dybryd, efallai y rhoddir gofal iechyd parhaus i chi ar garlam. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi wneud unrhyw rai o'r asesiadau. Ystyrir bod eich anghenion yn rhai dybryd os gallai eich bywyd fod mewn perygl os nad ydych yn derbyn help yn gyflym.

Mae gofal iechyd parhaus ar gyfer unrhyw un yn DU sydd angen gofal iechyd yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod y gofal mae ei angen arnynt yn ymwneud mwy â gofal meddygol na gofal cymdeithasol. Gall yr anghenion hyn fod gartref, mewn hosbis neu mewn cartref gofal. Gallwch wneud cais am ofal iechyd parhaus os oes gennych:

- gyflwr meddygol cymhleth
- angen am ofal sylweddol a pharhaus

Mae gofal iechyd parhaus yn rhychwantu ffioedd cartref gofal gan gynnwys: costau llety, costau gofal iechyd a chostau gofal personol. Os oes angen gofal gartref arnoch, mae'n rhychwantu costau personol a chostau gofal iechyd. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn rhychwantu cost cynorthwywyr gofal iechyd.

Mae gofal personol yn golygu unrhyw beth sy'n ymwneud â hylendid, bwyd, lles emosiynol, symudedd neu driniaethau syml fel rhoi trwythau neu ddafnau llygad. Mae gofal iechyd yn unrhyw ofal y mae angen iddo gael ei ddarparu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel nyrs neu feddyg.

Sut mae gwneud cais

Bydd angen i chi drefnu asesiad cychwynnol trwy:

- eich nyrs ardal, meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
- eich cyngor lleol neu ymddiriedolaeth gofal iechyd a chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon
- gweithiwr cymdeithasol ysbyty
- eich Nyrs Marie Curie neu staff hosbis

Pan fyddwch yn gwneud cais, mae'n syniad da hefyd cael cefnogaeth oddi wrth rywun sy'n deall sut mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd, oherwydd mae'r rheolau'n newid yn weddol aml. Mae Cyngor ar Bopeth (tudalen 73) yn fan cychwyn da.



Mae gennym wybodaeth fanylach am ofal iechyd parhaus yn mariecurie.org.uk/continuinghealthcare neu galwch Linell Gymorth Marie Curie ar **0800 090 2309**.*

Budd-daliadau ar gyfer pobl sy'n sâl neu'n anabl

Isod mae rhai o'r prif fudd-daliadau ar gyfer pobl sy'n sâl neu'n anabl. Mae rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd ag afiechyd terfynol, sy'n golygu y gellir delio â'ch cais yn ddioed a gallwch dderbyn y budd-dal ary gyfradd uchaf os ydych yn gymwys. Ewch i mariecurie.org.uk/specialrules neu galwch Linell Gymorth Marie Curie ar **0800 090 2309*** am fwy o wybodaeth.

Lwfans Gweini

Budd-dal di-dreth yw hwn ar gyfer pobl sy'n 65 oed neu'n hŷn. Gall helpu gyda chostau ychwanegol anabledd neu gyflwr iechyd.

Taliad Annibyniaeth Bersonol

Budd-dal di-dreth yw hwn sy'n helpu gyda chostau ychwanegol dioddef anabledd neu gyflwr iechyd. Mae ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed. Gallwch fod yn gymwys hefyd os oes arnoch angen help gyda gofal personol neu symud o gwmpas. Mae'n fudd-dal newydd sy'n raddol ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pobl o oedran gwaith.

Lwfans Byw i'r Anabl

Budd-dal di-dreth yw hwn ar gyfer pobl sydd ag anabledd corfforol neu feddyliol ac sydd angen help gyda gofal personol neu oruchwyliaeth er mwyn aros yn ddiogel, neu sydd angen help i symud o gwmpas. Mae'n debyg i'r Taliad Annibyniaeth Bersonol a'r Lwfans Gweini. Ni allwch wneud cais newydd mwyach am Lwfans Byw i'r Anabl oni bai eich bod dan 16 oed, neu rydych yn bywyng Ngogledd Iwerddon.

Disability Living Allowance
This is a tax-free benefit for people who have a physical or mental disability and need help with personal care or supervision to remain safe, or need help with getting around. It's similar to Personal Independence Payment and Attendance Allowance. You can no longer make a new claim for Disability Living Allowance unless you are under 16 years old, or you live in Northern Ireland.

Personal Independence Payment
This is a tax-free benefit that helps with the extra costs of having a disability or health condition. It's for people aged 16–64. You may also qualify if you need help with personal care or getting around. It's a new benefit that's gradually replacing Disability Living Allowance for people of working age.

Attendance Allowance
This is a tax-free benefit for people aged 65 or over. It can help with the extra costs of a disability or health condition.

Benefits for people who are ill or disabled
Below are some of the main benefits for people who are ill or disabled. There are special rules for people who have a terminal illness, which mean that you may have your application fast-tracked and get the benefit at the highest rate if you qualify. Visit mariecurie.org.uk/specialrules or call the Marie Curie Support Line on **0800 090 2309*** for more information.

We have more detailed information about continuing healthcare at mariecurie.org.uk/continuinghealthcare or call the Marie Curie Support Line on **0800 090 2309***.



If you live alone, you may feel that it's more difficult for you to get the help and support that you need. Not having visits from friends or family could also make it harder for you to cope with your illness.

If you live alone

Benefits for carers

If someone is caring for you, they may be able to claim Carer's Allowance, which is a weekly benefit for people who care for someone who has a health condition or disability. Carer's Credit may also be available to protect their State Pension if they're not working.

We have more information about getting help with financial matters on our website at mariecurie.org.uk/help or call the Marie Curie Support Line on **0800 090 2309**.*



Social security benefits are handled by the Department for Work and Pensions (England, Scotland and Wales) and the Social Security Agency (Northern Ireland). There are different branches depending on the benefit you're applying for. See pages 73-74 for contact details.

How to apply

This is the main benefit for people whose ability to work is limited by ill health or disability. Employment and Support Allowance (ESA) is a complicated benefit, so it's a good idea to get help from a benefits adviser before you apply.

Employment and Support Allowance

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

